Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# ADRODDIAD MONITRO Y GYMRAEG AR GYFER 2022-2023
# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL

## CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Adran 1 – Rhagair** | **Tudalen 3** |
| **Adran 2 - Cyflwyniad** | **Tudalen 4** |
| **Adran 3 - Cynnydd o ran Gweithredu Safonau'r Gymraeg** | **Tudalen 5 -13** |
| **Adran 4 - Manylion Cyswllt** | **Tudalen 14** |

## ADRAN 1

## RHAGAIR

Derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ei Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 30 Medi 2015. Roedd yr hysbysiad yn amlinellu dyletswydd y Cyngor i fodloni Safonau statudol y Gymraeg a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Rhoddodd y Mesur hwn statws cyfartal i'r Gymraeg a'r Saesneg fel na ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Bwriad cyflwyno Safonau'r Gymraeg yw sicrhau bod y rheini yng Nghymru sy'n dymuno byw eu bywydau yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny drwy fynnu bod Cynghorau, a chyrff sector cyhoeddus eraill, yn darparu eu gwasanaethau yn Gymraeg.

Mae Safonau'r Gymraeg yn eu gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio Adroddiad Blynyddol, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n ymdrin â'r ffordd y mae wedi cydymffurfio â Safonau Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisïau a Safonau Gweithredu. Mae darpariaeth hefyd wedi'i chynnwys yn y Safonau sy'n ymwneud â chyhoeddi a chyhoeddusrwydd yr Adroddiad Blynyddol.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi cynnydd y Cyngor tuag at gydymffurfio â'r Safonau yn ystod blwyddyn ariannol 2022-2023.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i annog ei holl gwsmeriaid i ddefnyddio'r sgiliau Cymraeg sydd ganddynt, ac i greu amgylchedd lle maent yn teimlo y gallant ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â'r Cyngor.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Sector Gwirfoddol, yn arbennig, Menter Iaith Merthyr Tudful i'n helpu i gyflawni ein rhwymedigaethau i'r gymuned yn llwyddiannus o dan y ddeddfwriaeth.

**Cynghorydd Andrew Barry**
**Aelod Cabinet Llywodraethu ac Adnoddau**

**Cynghorydd Michelle Symonds**
**Pencampwr y Gymraeg ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**

## ADRAN 2

## CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

### SAFONAU'R GYMRAEG

Yn 2011, disodlodd Mesur y Gymraeg (Cymru) Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac fel rhan o'r ddeddfwriaeth newydd, yng Nghymru, mae gan y Gymraeg statws cyfreithiol sy'n gyfartal â'r Saesneg ac ni ddylid ei thrin yn llai ffafriol. Nid yw'n ofynnol bellach i gyrff cyhoeddus ddatblygu a gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg ond mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â set o Safonau'r Gymraeg yn lle hynny.

Mae'r Safonau'n egluro sut mae disgwyl i sefydliadau ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol sefyllfaoedd. Mae'r ddogfen hon yn nodi sut mae CBSMT yn bodloni'r safonau.

Mae'r Mesur yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio â safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r Mesur yn nodi y caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu Safonau yn y meysydd a ganlyn:

- Darparu Gwasanaeth
- Llunio Polisi
- Gweithredol
- Hyrwyddo
- Cadw Cofnodion

Nod y Safonau yw:

- Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg.
- Ei gwneud yn gliriach i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg.
- Gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella eu hansawdd.

"Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru.

Wrth arfer swyddogaethau yn unol â'r prif nod hwn, rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i:

- Y statws swyddogol sydd gan y Gymraeg yng Nghymru,
- Y dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg a osodir gan y gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o orfodi'r dyletswyddau hynny,
- Yr egwyddor na ddylai'r Gymraeg, yng Nghymru, gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru, a
- Yr egwyddor y dylai unigolion yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy'r Gymraeg os ydynt yn dewis gwneud hynny."

*Dyfyniad o'r: 'Cod Ymarfer ar gyfer Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015'; Comisiynydd y Gymraeg; 19 Chwefror 2020*

## ADRAN 3

## CYNNYDD AR ROI SAFONAU'R GYMRAEG AR WAITH

Mae’r canlynol yn crynhoi rhai o’r cynnydd allweddol y mae’r Cyngor yn ei wneud wrth roi’r Safonau ar waith:

### RHAGLEN Y GYMRAEG

Mae'r Cyngor wedi datblygu Rhaglen y Gymraeg wedi'i strwythuro o amgylch cydymffurfio â'r Safonau, cyfieithu a hyrwyddo'r Gymraeg; mae'n cynnwys y canlynol:

- Gwasanaeth ffôn a Derbynfa
- Gohebiaeth
- Cyfryngau cymdeithasol
- Gwefan
- Hyfforddiant y Gymraeg
- Ymgyrch #Shwmaeronment
- Ymarfer Cwsmer Cudd
- Lleoliad Gwaith Cymraeg
- Cyfieithiad Cymraeg
- Adroddiad Blynyddol y Gymraeg

Mae Rhaglen y Gymraeg yn rhan o raglen waith Gwasanaethau Corfforaethol y Cyngor, gan gefnogi cydymffurfiaeth â'r Safonau a chyflawni:

- Nod Lles: Cymru â Diwylliant Bywiog ble mae’r Gymraeg yn ffynnu
- Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg y Cyngor a Strategaeth Miliwn o Siaradwyr Cymraeg Llywodraeth Cymru

Fel rhan o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, mae cynnydd ar Raglen y Gymraeg yn cael ei fonitro drwy adroddiadau ar y prif bwyntiau a adroddir fel rhan o gyfarfodydd rheoli Gwasanaethau Corfforaethol, sy'n bwydo i mewn i Strategaethau'r Cyngor (Newid a Pherfformiad).

Rydym wedi amlinellu rhai o'r newidiadau allweddol a wnaed wrth gyflwyno Rhaglen y Gymraeg isod.

Cynhaliodd Comisiynydd y Gymraeg ymarfer cwsmer cudd lle gwnaethant ffonio ac e-bostio’r Cyngor sawl gwaith i asesu ein hymateb a’n cydymffurfiad, adolygodd Comisiynydd y Gymraeg ein cyfryngau cymdeithasol a’n gwefan hefyd. Nodwyd meysydd i'w gwella o'r drafodaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg, ac mae'r Cyngor yn aros am y llythyr i'w gadarnhau.

### ASESU EFFAITH

#### Asesiad Effaith Integredig

Yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae’r Cyngor wedi datblygu Asesiad Effaith Integredig (IIA). Mae’r IIA yn cynnwys asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb yn unol â gofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Cymru)

2011 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r IIA bellach yn asesu yn erbyn ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae'r IIA yn cyd-fynd ag adroddiadau i'r Cabinet a'r Cyngor fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau. Cyhoeddir IIA ar wefan y Cyngor ynghyd ag adroddiad perthnasol y Cabinet neu'r Cyngor.

Mae'r IIA yn cefnogi'r Cyngor i ddangos sut mae'n cynllunio, darparu a monitro gwasanaethau yn unol â'r egwyddor datblygu gynaliadwy a sut mae'n ceisio gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Merthyr Tudful, yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy:

- Feddwl am effaith **hirdymor** ein gwaith ar bobl ym Merthyr Tudful
- Cymryd agwedd **integredig** at wasanaethau, gan edrych ar yr effaith y gallai ein gwaith ei chael ar wasanaethau a sefydliadau eraill
- **Cynnwys** pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- Gweithio gydag eraill i ddod o hyd i ddatrysiadau **cydweithredol**
- Deall achosion sylfaenol problemau a'u **hatal** rhag digwydd




Cymeradwywyd yr IIA sy'n cael ei gwblhau fel rhan o holl adroddiadau'r Cabinet a'r Cyngor gan y Cabinet, mae'r IIA yn ymgorffori Amcanion Lles y Cyngor, yr Egwyddor Datblygu Gynaliadwy, Cydraddoldeb, y Gymraeg a Bioamrywiaeth, i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau effeithiol a sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r IIA wedi'i ddiweddaru ymhellach eleni i sicrhau ein bod yn asesu ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol. Mae'r IIA yn sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Adran 6 o Ran 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
- Dyletswydd economaidd-gymdeithasol (Adran 1 Deddf Cydraddoldeb 2010).

Mae'r IIA wedi'i gymhwyso i Fframwaith Rheoli Prosiect CBSMT ac fe'i rhoddwyd ar waith ar gyfer Adroddiadau'r Cyngor a'r Cabinet.

Cefnogir yr IIA gan ganllawiau manwl i gynorthwyo staff wrth iddynt gwblhau'r ddogfen, sydd ar gael ar fewnrwyd y Cyngor.

## Rhoi Strategaeth y Gymraeg 5 Mlynedd a Chynllun Strategol Addysg Gymraeg ar waith

### Eisteddfod yr Urdd 2022

Cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Ddinbych gydag Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful a Phen y Dre yn cynrychioli Merthyr Tudful mewn nifer o gystadlaethau. Llwyddodd Ysgol Uwchradd Pen y Dre i ddod yn gyntaf, ail a thrydydd mewn nifer o gystadlaethau llefaru i ddysgwyr.

### Digwyddiad Marchnata'r Gymraeg a Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Ym mis Gorffennaf a mis Awst 2023, trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau marchnata ar y cyd â Dysgu Oedolion yn y Gymuned, yr Adran Blynyddoedd Cynnar a Dysgu Cymraeg Morgannwg. Pwrpas y digwyddiadau oedd rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd am gyrsiau Cymraeg i Oedolion oedd yn cael eu cynnal. Darparodd yr Arweinydd Strategol ar gyfer y Gymraeg a staff yr Adran Blynyddoedd Cynnar hefyd wybodaeth i ddarpar rieni a rhieni presennol ar fanteision Addysg Cymraeg. Trefnwyd chwe digwyddiad yn ardaloedd Gogledd, De a Chanol y Fwrdeistref Sirol. Daeth rhwng 10 a 12 o bobl i bob digwyddiad. Roedd nwyddau hyrwyddo'r Gymraeg ar gael yn y digwyddiadau hyn.

**<u>Diwrnod Shwmae Su'mae</u>**

I adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad Diwrnod Shwmae Su'mae blynyddol blaenorol, trefnwyd hyn ar y cyd â phartneriaid Fforwm Addysg Gymraeg (FfAE) a Grŵp Llywio Strategaeth y Gymraeg. Fe’i hagorwyd gan Gyfarwyddwr Addysg a’r Gymraeg o Lywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd y digwyddiad ym Mharc Cyfarthfa ar 15 Hydref. Cafwyd adloniant gan blant o Ysgol Gynradd Pantyscallog, Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful a Rhyd y Grug ac Ysgol Gyfun Rhydywaun fel y gwnaeth telynores leol a Chôr Meibion Dowlais. Cafwyd adloniant i’r plant iau gan y cwmni dwyieithog Do Rei Mi a bu disgyblion Ysgol Coed y Dderwen hefyd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau yn Gymraeg. Roedd Prif Weithredwr a Phennaeth Cyfathrebu Cymdeithas Bêl-droed Cymru yn bresennol i gynnal sesiwn holi ac ateb ar sut mae’r Gymraeg wedi’i defnyddio a’i hymgorffori yn y sefydliad. Daeth rhwng 300 a 400 cant o bobl i’r digwyddiad gan alluogi plant, pobl ifanc a’r gymuned ehangach i ymgysylltu â’r Gymraeg. Roedd mwy o fusnesau’n bresennol nag yn 2021 a rhoddodd y digwyddiad gyhoeddusrwydd cadarnhaol i’r defnydd o’r Gymraeg ar draws Merthyr Tudful. Y partneriaid a gymerodd ran yn y digwyddiad oedd Mudiad Meithrin, Menter Iaith Merthyr Tudful a Chanolfan Soar, Rhieni Dros Addysg Gymraeg, Dysgu Cymraeg Morgannwg, Lles Merthyr, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Adran Blynyddoedd Cynnar CBSMT a Choleg Merthyr.

Yn ystod y digwyddiad lansiwyd cystadleuaeth ar y cyd rhwng Coleg Merthyr a CBSMT i enwi masgot Shwmaeronment. Derbyniodd yr enillydd (disgybl o Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa) grys pêl-droed Cymru a phêl wedi’u llofnodi.

**<u>Ffair Nadolig</u>**

Am y tro cyntaf trefnwyd Ffair Nadolig Gymraeg i hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y Fwrdeistref Sirol. Daeth Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa, Ysgol Gymraeg Rhyd y Grug, Ysgol Uwchradd Pen y Dre i berfformio eitemau Cymraeg yn ogystal â Chôr Meibion Ynysowen. Cymerodd Cylch Meithrin Treharris a Phentrebach ran hefyd. Darparodd cwmni cerddorol dwyieithog Do Rei Mi adloniant arall i blant bach yn ogystal â Sion Corn. Roedd cyfle i brynu eitemau Cymraeg o amrywiaeth o stondinau. Cafwyd adborth cadarnhaol gan aelodau’r cyhoedd gyda thua 500 o aelodau’r cyhoedd yn bresennol yn y digwyddiad. Roedd gan Mudiad Meithrin, a Menter Iaith Merthyr Tudful stondin yn hyrwyddo rhaglenni Cymraeg a rhaglenni addysgiadol.

**<u>Gweithgareddau Eraill y Nadolig</u>**

Roedd yr ysgolion cynradd canlynol yn rhan o fontage o ganeuon y Nadolig - Parc Cyfarthfa, Coed y Dderwen, Caedraw, Abercanaid, Troedyrhiw, Edwardsville, Pantyscallog, Dowlais, Gwaunfarren, Blessed Carlo Acutis - Campws y Santes Fair, ac Ysgol Gynradd y Graig. Perfformiodd Ysgol Gynradd Gymraeg Santes Tudful ac Ysgol Gynradd Gymraeg Rhyd y Grug gân ychwanegol. Rhoddwyd y fideo ar dudalen Facebook Shwmaeronment a bu i 3.3mil o bobl edrych ar y fideo a derbyniwyd llawer o sylwadau cadarnhaol. Unwaith eto, mewn cydweithrediad â Bwyd Castell Howell, bu eu lori Nadolig yn ymweld â'r ysgolion a

gymerodd ran yn y prosiect hwn gyda Sion Corn a'i gorachod, a fu'n ymgysylltu â'r plant yn ddwyieithog.

**Eisteddfod Clwstwr Cyfarthfa**

Er mwyn datblygu'r Gymraeg ymhellach ac adeiladu ar waith y llynedd, cefnogodd Arweinydd Strategol y Gymraeg Eisteddfod Clwstwr Cyfarthfa a gynhaliwyd eleni yn Ysgol Gynradd Coed y Dderwen. Cyflwynwyd cystadlaethau ychwanegol eleni gan gynnwys adran celf a chrefft. Bu i holl ysgolion y clwstwr gymryd rhan.

**Eisteddfod Blessed Carlo Acutis**

Cefnogodd Arweinydd Strategol y Gymraeg yr ysgol i gynnal ei heisteddfod gyntaf. Cynhaliwyd amrywiaeth o gystadlaethau cerddorol, llefaru, dawns, a chelf a chrefft.

**Digwyddiad Dydd Gŵyl Dewi**

Eleni, cynhaliodd Y Coleg, Merthyr Tudful, a Menter Iaith Merthyr Tudful ddigwyddiadau Dydd Gŵyl Dewi penodol. Roedd yr ysgolion a gymerodd ran yn cynnwys Ysgol y Graig, Ysgol Gynradd Coed y Dderwen, Ysgol Uwchradd Pen y Dre a bu disgybl o Ysgol Gyfun Rhydywaun yn perfformio eitemau yn Y Coleg. Hefyd, cynhaliodd Menter Iaith Merthyr Tudful ddigwyddiad ar gyfer Cylchoedd Meithrin Merthyr Tudful.

**Noson Lawen**

Am y tro cyntaf trefnwyd Noson Lawen yn "Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diwethaf" yn Georgetown, Merthyr Tudful. Adeiladwyd y digwyddiad hwn ar y digwyddiad cyntaf a gynhaliwyd y llynedd yng Nghanolfan Soar. Roedd dros 200 o blant o bob rhan o'r Fwrdeistref Sirol yn bresennol i berfformio eitemau Cymraeg gan gynnwys enillwyr Eisteddfodau clwstwr Pen y Dre, Cyfarthfa a BCA ac eitemau ychwanegol o Ysgol Uwchradd Afon Taf, Ysgolion Cynradd Cymraeg Santes a Rhyd y Grug ac Ysgol Gyfun Rhydywaun. Bu Llysgenhadon y Coleg Cymraeg o'r Coleg Merthyr Tudful yn helpu yn y digwyddiad gyda Mistar Urdd a Dwynwen y ddraig Shwmaeronment hefyd yn gwneud ymddangosiad a Chôr Meibion Dowlais yn perfformio ychydig o Emynau Cymraeg.

**Dysgu Cymraeg Morgannwg / Learn Welsh Glamorgan**

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg i ddarparu cyfleoedd hyfforddi yn y gweithle i staff a Chynghorwyr. Mae hyn yn cynnwys ymgyrch hyrwyddo barhaus i annog staff a Chynghorwyr i ymgymryd â chyfleoedd hyfforddiant y Gymraeg drwy sesiynau galw heibio, trwy'r fewnrwyd, trwy e-bost, a sesiynau blasu.

Mae cyrsiau a dysgu eleni wedi'u cynnal yn bennaf ar-lein trwy Microsoft Teams gyda rhai sesiynau'n dychwelyd i ddysgu wyneb yn wyneb.

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor aelodau o staff sy'n dysgu Cymraeg yn y gweithle yn amrywio o lefel Mynediad i ganolradd lefel 1 a 2 a rhai ar lefel Uwch. Mae cyrsiau e-ddysgu Cymraeg Lefel 1 yn cael eu hyrwyddo i staff fel rhan o'n cynllun adfer Coronafirws a gwella ehangach (Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella (Cynllun RT&I) wrth ddatblygu diwylliant dysgu ar draws y Cyngor.

Trwy weithio mewn partneriaeth â Dysgu Cymraeg Morgannwg, rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyfleoedd cymdeithasol parhaus i ddysgwyr wrando ac ymarfer defnyddio'r Gymraeg. Yn flaenorol, mae dysgwyr y Cyngor wedi cynorthwyo Dysgu Cymraeg

Morgannwg i farchnata cyrsiau a chynnig unrhyw gymorth i hyrwyddo'r Gymraeg ledled Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful.

Fel rhan o'r gwaith o roi'r Strategaeth Iaith 5 Mlynedd a'r Cynllun Strategol Addysg Gymraeg ar waith, cyfrannodd 4 o ddysgwyr Cymraeg y Cyngor at y prosiectau gweithredu drwy gynnal gweithgareddau gan nodi'r rhesymau pam y penderfynwyd dysgu Cymraeg a'r manteision sydd wedi deillio ohono.

**<u>Gair Cymraeg / Ymadrodd bob Pythefnos</u>**

Er mwyn cynorthwyo staff a Chynghorwyr i ddysgu a hyrwyddo'r Gymraeg, mae'r Cyngor wedi datblygu menter gair / ymadrodd Cymraeg bob pythefnos.

Mae'r ymadroddion Cymraeg byr yn ymddangos ar sgriniau cyfrifiaduron bob pythefnos wedi'u cynllunio i helpu staff a Chynghorwyr i ddysgu Cymraeg sylfaenol ar gyfer busnesau. Anogir staff a Chynghorwyr hefyd i ymarfer yr ymadroddion Cymraeg gyda chydweithwyr, ffrindiau a theulu. Nid yw hyn wedi bod ar waith oherwydd swydd wag ond bydd yn cael ei ailystyried ar gyfer 2022/23.

Involvement

**<u>Sgiliau Gwaith i Oedolion 2</u>**

A Wales of vibrant culture and thriving Welsh language

Roedd gan Sgiliau Gwaith i Oedolion 2 dri dysgwr ar y cwrs Mynediad 3 Cymraeg mewn Meithrinfeydd ar gyfer Ymarferwyr y Blynyddoedd Cynnar yn 2022/23.

**<u>GWIRFODDOLWYR SY'N SIARAD CYMRAEG</u>**

I gyd-fynd â'r Hyfforddiant Gloywi ar gyfer Gwasanaeth Ffôn a Chyfarch Cwsmeriaid yn Gymraeg mae rhestr y Cyngor o wirfoddolwyr sy'n siarad Cymraeg wedi'i hadolygu, ei diweddaru ac mae ar gael ar fewnrwyd staff y Cyngor.

Mae'r rhestr hon yn nodi'r aelodau staff sydd wedi gwirfoddoli i gynorthwyo'r Cyngor i siarad â chwsmeriaid yn Gymraeg, sy'n cynnwys siaradwyr rhugl a dysgwyr i'w cefnogi i ymarfer eu Cymraeg.

**<u>Bore Coffi Cymraeg</u>**

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda staff y Ganolfan Dysgu yn y Gymdogaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i gynnal bore coffi unwaith y mis ar gyfer dysgwyr a staff sydd wedi colli eu hyder i siarad yr iaith. Bu'n anodd gwneud hyn trwy ddulliau rhithwir drwy'r pandemig, ond y gobaith yw y gellir dychwelyd i sesiynau wyneb i wyneb yn fuan fel y gellir adeiladu ar y llwyddiant da. Mae'n ddigwyddiad anffurfiol lle mae aelodau staff yn siarad am hobïau a digwyddiadau cymdeithasol. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn a'r gobaith yw y bydd modd ei gyflwyno yn adrannau eraill y Cyngor. Mae Clwb Clonc misol, sef sesiwn galw heibio anffurfiol yn y Ganolfan Ddinesig lle gall staff ymarfer a magu hyder wedi dechrau a bydd y Swyddog Polisi Cymraeg yn edrych ar ffyrdd o ddatblygu hyn ymhellach.

**Grŵp Pencampwyr y Gymraeg**

Ym mis Hydref 2019 sefydlwyd grŵp Pencampwyr y Gymraeg ar gyfer aelodau staff y Cyngor. Pwrpas y grŵp hwn yw rhannu syniadau o arfer da i weld sut y gall adrannau weithredu Safonau'r Gymraeg a thrafod unrhyw faterion sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae Cardiau all gael eu rhoi ar Ddesg wedi'u creu yn Gymraeg i bob aelod o staff eu helpu gydag ymadroddion sylfaenol ac i roi'r hyder iddynt siarad yr iaith. Mae'r adnodd hwn hefyd ar gael yn electronig ar y Fewnrwyd. Mae Grŵp Pencampwyr y Gymraeg wedi bod yn anodd ei drefnu dros y ddwy flynedd ddiwethaf ond bydd hyn yn cael ei adolygu a bydd hefyd yn helpu i fodloni amcanion y strategaeth newydd.

**Cwrs Rhagarweiniol Cymraeg**

O 1 Ebrill 2021 bydd yn ofynnol i bob aelod newydd o staff ddilyn cwrs rhagarweiniol Cymraeg. Gelwir hyn yn gwrs ar-lein 10 Awr Cymraeg Gwaith. Mae'n darparu hyfforddiant sylfaenol yn y Gymraeg ar y canlynol:

- Sut i ateb y ffôn
- Darparu cyfarwyddiadau a gwybodaeth i ymwelwyr allanol wrth ddod i mewn i'r adeilad
- Dysgu ynganu rhifau
- Enwau lleoedd a misoedd y flwyddyn

Anogir pob aelod o staff i ddilyn y cwrs fel rhan o'u ffocws ar y gwerthusiad perfformiad yn y dyfodol (gwerthusiad blynyddol).

Ers dechrau mis Ebrill 2022 mae 142 o ddechreuwyr newydd wedi cwblhau'r cwrs.

**CYFARFODYDD**

Mae bellach yn arfer cyffredinol i agor holl gyfarfodydd y Cyngor yn Gymraeg ac anogir y defnydd o'r Gymraeg ym mhob ffurf gan Uwch Reolwyr a Chynghorwyr fel ei gilydd.

**GRŴP DEDDF**

Mae'r Cyngor yn aelod gweithgar o Grŵp Deddf ac yn mynychu eu cyfarfodydd yn rheolaidd. Mae Grŵp Deddf yn grŵp gwirfoddol sy'n cynnwys Swyddogion y Gymraeg ar gyfer cyrff sector cyhoeddus sy'n dod o dan ofynion cydymffurfio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar lefel ranbarthol. Nod y Grŵp Deddf yw trafod a rhannu gwybodaeth ac arfer da am y Gymraeg. Er bod presenoldeb wedi bod yn gyfyngedig ers i ddeiliad y swydd symud i rôl arall o fewn y Cyngor. Dechreuodd presenoldeb yn y cyfarfod hwn eto ym mis Ionawr 2023 pan ddechreuodd swydd newydd y Swyddog Polisi Cymraeg weithio gyda'r awdurdod.

**Rhwydiaith**
Mae'r Cyngor yn aelod gweithgar o Rwydiaith ac yn mynychu eu cyfarfodydd yn rheolaidd. Mae Rhwydiaith yn grŵp sy'n cynnwys Swyddogion y Gymraeg ar gyfer cyrff sector cyhoeddus sy'n dod o dan ofynion cydymffurfio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar lefel genedlaethol. Fe'i trefnir gan Lywodraeth Cymru ac mae'n trafod ac yn rhannu

gwybodaeth ac arferion da am y Gymraeg a deddfwriaeth, strategaethau, polisïau a gweithdrefnau perthnasol y Llywodraeth.

**URDD**
Mae'r Urdd yn cynnal Clwb Amser Cinio a 'Sesiwn Siarad' i ddisgyblion Blwyddyn 8 ac 11 yn Ysgol Pen-y-Dre yn wythnosol. Hefyd cynhaliwyd Digwyddiad Cydraddoldeb yn Theatr Soar a oedd yn dathlu, yn trafod ac yn codi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae'r Urdd hefyd yn trefnu Clwb Ieuenctid wythnosol i fyfyrwyr Blynyddoedd 4-6 yn ymwneud ag addysg Cymraeg. Mae cynlluniau i agor Clwb Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc yn eu harddegau sy'n mynychu addysg Gymraeg yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

**Menter Iaith Merthyr**
Mae Menter Iaith Merthyr yn cynnal sesiwn galw heibio wythnosol ar gyfer dysgwyr Cymraeg a'r rhai sydd eisoes â sgiliau Cymraeg. Cynhelir y ddwy sesiwn ar ddydd Mercher.

**Gweithio mewn Partneriaeth:**

Fel rhan o'r prosiect mae partneriaethau ar waith gyda'r rhanddeiliaid allweddol canlynol i ddarparu cyfleoedd i gefnogi a datblygu'r Gymraeg:

- Menter Iaith Merthyr Tudful
- Urdd
- Ysgolion Cymraeg a Saesneg ym Merthyr Tudful
- Ysgol Gyfun Rhydywaun
- Consortiwm Canolbarth y De
- Y Gwasanaeth Ieuenctid
- Coleg Merthyr Tudful
- Mudiad Ysgolion Meithrin
- Dysgu Oedolion yn y Gymuned

## SAFONAU DARPARU GWASANAETH

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 87 o Safonau yn ymwneud â Darparu Gwasanaeth.

Nid oes unrhyw Safon yn ymwneud â Darparu Gwasanaeth yn destun ymchwiliad.

## SAFONAU LLUNIO POLISI

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 16 o Safonau yn ymwneud â Llunio Polisi.

Nid oes unrhyw Safonau yn ymwneud â Llunio Polisi yn destun ymchwiliad.

## SAFONAU GWEITHREDOL

Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i 53 o Safonau Gweithredol.

Nid oes unrhyw Safonau Gweithredol yn destun ymchwiliad.

**SGILIAU CYMRAEG Y GWEITHWYR (AR SAIL Y COFNODION A GEDWIR YN UNOL Â SAFON 151):**

| Sgiliau Gwrando | Nifer y Gweithwyr 2021/22 | Nifer y Gweithwyr 2022/23 |
|---|---|---|
| Pob sgwrs gwaith | 120 | 119 |
| Mwyafrif y sgyrsiau gwaith | 23 | 23 |
| Sgyrsiau arferol | 42 | 41 |
| Sgyrsiau cymdeithasol sylfaenol | 174 | 192 |
| Ymholiadau sylfaenol | 552 | 593 |
| Dim sgiliau | 714 | 735 |
| **Cyfanswm** | **1625** | **1703** |

| Sgiliau Darllen | Nifer y Gweithwyr 2021/22 | Nifer y Gweithwyr 2022/23 |
|---|---|---|
| Pob deunydd gwaith | 118 | 121 |
| Rhan fwyaf o ddeunydd | 46 | 48 |
| Deunydd arferol (gan ddefnyddio geiriadur) | 69 | 72 |
| Deunydd gwaith sylfaenol | 130 | 139 |
| Geiriau ac ymadroddion sylfaenol | 571 | 615 |
| Dim sgiliau | 675 | 696 |
| **Cyfanswm** | **1609** | **1691** |

| Sgiliau Siarad | Nifer y Gweithwyr 2021/22 | Nifer y Gweithwyr 2022/23 |
|---|---|---|
| Rhugl - pob sgwrs | 116 | 124 |
| Mwyafrif o sefyllfaoedd | 31 | 29 |
| Sgwrsio ag eraill | 53 | 51 |
| Ateb ymholiadau syml | 145 | 150 |
| Sgwrs gyffredinol | 519 | 570 |
| Dim sgiliau | 743 | 780 |
| **Cyfanswm** | **1607** | **1704** |

| Sgiliau Ysgrifennu | Nifer y Gweithwyr 2021/22 | Nifer y Gweithwyr 2022/23 |
|---|---|---|
| Medrus - gwneud gwaith cymhleth | 97 | 105 |
| Y mwyafrif o'r testun ysgrifenedig | 40 | 40 |
| Testun arferol, gyda chymorth | 51 | 53 |
| Negeseuon sylfaenol | 106 | 497 |
| Gohebiaeth syml | 470 | 119 |
| Dim sgiliau | 845 | 883 |
| **Cyfanswm** | **1609** | **1697** |

Gall y gwahaniaeth mewn niferoedd fod oherwydd sawl rheswm ond mae'n braf gweld y cynnydd mewn niferoedd mewn categorïau. Gallai’r cyfle i staff ddiweddaru’r manylion ar ein system AD eu hunain fod y prif reswm dros y cynnydd mewn niferoedd, gan y gofynnir i bob gweithiwr newydd lenwi’r ffurflen fonitro fel mater o drefn wrth ymgymryd â rôl newydd. Gall y rhai sy'n nodi nad oes ganddynt unrhyw sgiliau neu sgiliau sylfaenol gofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg ym mis Medi i'w cynorthwyo i godi lefel eu sgiliau os dymunant.

**NIFER YR AELODAU O STAFF A DDAETH I GYRSIAU HYFFORDDI A GYNIGIR YN GYMRAEG YN YSTOD Y FLWYDDYN (AR SAIL Y COFNODION A GEDWIR YN UNOL Â SAFON 152)** :

Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor aelodau o staff sy'n dysgu Cymraeg yn y gweithle sy’n amrywio o lefel Mynediad i Ganolradd lefel 1 a 2. Mae gan y Cyngor hefyd sawl aelod o staff ar lefelau uwch ac mae'n awyddus i barhau i gefnogi dysgu i aelodau staff. Bydd deunydd hyrwyddo cyfle i ddysgu a mynychu dosbarthiadau yn cael ei gyfathrebu trwy e-bost, fforwm staff ac ati pan fydd y broses cofrestru ar agor.

**OS CYNIGIR FERSIWN GYMRAEG O GWRS YN YSTOD Y FLWYDDYN, Y GANRAN O GYFANSWM NIFER Y STAFF SY'N MYNYCHU'R CWRS A FYNYCHODD Y FERSIWN GYMRAEG (AR SAIL Y COFNODION A GEDWIR YN UNOL Â SAFON 152 :**

Amherthnasol.

**NIFER Y SWYDDI NEWYDD A SWYDDI GWAG A HYSBYSEBWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN A GAFODD EU CATEGOREIDDIO FEL SWYDDI LLE - (I) ROEDD SGILIAU CYMRAEG YN HANFODOL, (II) MAE ANGEN DYSGU SGILIAU CYMRAEG AR ÔL IDDYNT GAEL EU PENODI I'R SWYDD III. MAE SGILIAU CYMRAEG YN DDYMUNOL, NEU (IV) NAD OEDD SGILIAU CYMRAEG YN ANGENRHEIDIOL, (AR SAIL Y COFNODION A GEDWIR YN UNOL Â SAFON 154):**

Allan o 313 o swyddi, roedd 9 yn nodi bod y Gymraeg yn hanfodol a 304 yn ddymunol.

**NIFER Y CWYNION A DDERBYNIWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN SY'N YMWNEUD Â CHYDYMFFURFIO Â'R SAFONAU YR YDYM O DAN DDYLETSWYDD I GYDYMFFURFIO Â NHW :**

Ni dderbyniodd Adran Gwynion y Cyngor unrhyw gwynion ffurfiol mewn perthynas â’r Gymraeg yn ystod y cyfnod 1Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023.

## ADRAN 4

## MANYLION CYSWLLT

**Sut i gysylltu â ni**

Os hoffech gopi o'r Adroddiad Blynyddol hwn mewn unrhyw fformat arall neu ei gyfieithu i iaith arall, cysylltwch â ni ar:

Ein gwefan: www.merthyr.gov.uk

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Canolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Ffôn: (01685) 725000